S4C

01.12.2022

Cathryn Ings
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
03305 880450

**Erthygl i'r Wasg Press Release**

# Mae'r bwrdd i dri wedi ei osod yng Nghaerdydd

Cymerwch dri chymeriad, tri chwrs, un pryd yr un a phinsiad da o hwyl a chwerthin - cymysgwch y cyfan gyda'i gilydd ac fe gewch y bennod nesaf yn y gyfres boblogaidd **Bwrdd i Dri**!

Yn y sioe hwyliog hon sy'n cyfuno coginio, bwyta a sgwrsio, bydd tri pherson yn paratoi pryd o fwyd tri chwrs i'w gilydd - pob un yn gyfrifol am gwrs yr un - o'r cwrs cyntaf i'r pwdin. A dyma lle mae'r hwyl yn cychwyn. Nid y nhw fydd yn paratoi na choginio'r rysáit maen nhw wedi'i ddewis!

Ar nos Wener, 16 Rhagfyr ar S4C, mae'r bwrdd yn cael ei osod yn y Brif Ddinas ac mae ein tri chogydd brwdfrydig yn byw yng Nghaerdydd.

Er bod Yuqi Tang yn byw yng Nghaerdydd nawr gyda'i gwr, mae hi'n dod yn wreiddiol o Shanghai ac wedi dysgu Cymraeg.

"Dwi'n hoffi nwdls, a wontons speislyd," meddai Yuqi. "Dwi ddim yn hoffi *toad in the hole*. Ych!"

Yr ail gogydd yw Elin Cain Roberts sy'n wreiddiol o Fethesda.

"Dwi ddim yn dda iawn am ddarllen y rysáit trwodd gynta'," meddai Elin. "Dwi fel arfer yn mynd jysd strêt mewn yna. Dyw *timings* fi ddim yn grêt - mae pob dim yn cymryd cwpl o oriau i wneud."

W diar! Ond oleia' mae Elin yn eithaf anturus pan mae'n dod i ddewis bwyd.

"Ers mynd yn fegan, nai fyta sdyff oni erioed yn meddwl baswn i'n bwyta. Yr unig beth dwi'n casáu - a dwi'n gyted am hyn - yw coriander - mae'n *disgusting* i fi," meddai Elin.

Teifi Rowley yw'r trydydd cogydd. Mae Teifi yn artist ac yn perfformio mewn drag o dan yr enw 'Anniben'. Pa mor daclus yw Teifi yn y gegin tybed?

"Fi'n oce yn y gegin – fi'n gallu mynd ar nerfau mam  weithiau - ond gawn ni weld. Fi'n barod ...," meddai Teifi.

Yuqi Tang sy'n coginio'r cwrs cyntaf - dewis Teifi; Elin sy'n gwneud y prif gwrs – dewis Yuqi ac Elin yn dewis y trydydd cwrs i Teifi goginio.

Wrth i'r gwaith caled ddod i ben, mae'n amser symud i'r bwrdd a chwrdd â'i gilydd am y tro cyntaf. Ond, a fydd yna flas ar y bwyd a'r cwmni o gwmpas y **Bwrdd i Dri**?

Mae'r gyfres gyfan o **Bwrdd i Dri** ar gael fel Bocs Set ar alw ar S4C Clic a BBC iPlayer.

**Bwrdd i Dri**
**Nos Wener 16 Rhagfyr 8.00, S4C**
**Isdeitlau Saesneg**
**Ar alw: S4C Clic, iPlayer a llwyfannau eraill**
**Cynhyrchiad Boom Cymru ar gyfer S4C**

01.12.2022

Cathryn Ings
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
03305 880450

**Erthygl i'r Wasg** **Press Release**

# Table for three is set in Cardiff

Take three characters, three courses and a good pinch of fun and laughter – mix it all together and the result is the next episode of the popular series **Bwrdd i Dri** (Table for Three).

In this fun show which combines cooking, eating and chatting, three people will be preparing a three course meal for each other. Each one is responsible for a course – from the first course to dessert. And this is where the fun starts. They won't be preparing or cooking the recipe they have chosen!

On Friday, 16 December on S4C, the table is set in the Capital City where our three enthusiastic chefs live.

Although Yuqi Tang lives in Cardiff now with her husband, she is originally from Shanghai and has learned to speak Welsh.

"I like noodles and spicy wontons," said Yuqi. "I don't like toad in the hole. Yuck!"

The second cook is Elin Cain Roberts who is originally from Bethesda.

"I'm not very good at reading a recipe through first," said Elin. "I usually just get straight in there. My timings aren't great – everything takes a couple of hours for me to do."

Oh dear! But at least Elin is quite adventurous when it comes to choosing food.

"Since I went vegan, I eat stuff that I never thought I would eat before. The only thing I don't like – and I'm gutted about this – is coriander. I find it disgusting!" said Elin.

Teifi Rowley is the third cook. Teifi is an artist and performs in drag under the name 'Anniben' (untidy in Welsh). So how tidy is Teifi in the kitchen?

"I'm okay in the kitchen – I get on my mum's nerves sometimes – but we'll see. I'm ready...," said Teifi.

Yuqi Tang cooks the first course – Teifi choses the dish; Elin makes the main course – Yuqi's choice and Elin chooses a dessert for Teifi to cook.

As the hard work comes to an end, it's time for the cooks to move to the table and meet each other for the first time. But will they enjoy each other's food and company around the table for three?

The entire **Bwrdd i Dri** box set is available now on S4C Clic and BBC iPlayer.

**Bwrdd i Dri**
**Friday 16 December 8.00, S4C**
**English subtitles available**
**On demand: S4C Clic, iPlayer and other platforms**
**A Boom Cymru production for S4C**